# Ffurflen gais am Grant Gwyrdd

Oes gennych chi fenter gynaliadwyedd neu hoffech chi gynnal digwyddiad sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd, di-garbon, amrywiaeth fiolegol neu ymddygiadau sy'n gyfrifol yn amgylcheddol, ond mae diffyg cyllid i ddechrau arni? Gall staff, myfyrwyr a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Abertawe ymgeisio am hyd at £250 gan Grant Gwyrdd Cynaliadwyedd y Brifysgol er mwyn cychwyn ar eich menter neu ddigwyddiad.

**Enw'r fenter neu ddigwyddiad:**
**Enw:**
**Cyfeiriad e-bost myfyriwr neu staff:**
**Enw'r gymdeithas:**

| |
|---|
| **Amlinellwch yn gryno'r fenter neu'r digwyddiad arfaethedig rydych chi am geisio cyllid grant amdano: dyddiad, lleoliad, nifer y bobl rydych chi'n gobeithio y byddant yn ymuno â'r digwyddiad neu effaith debygol eich menter a sut mae'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol. Efallai byddwch chi am ystyried sut bydd eich menter/digwyddiad yn ategu effaith ar gyfer Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.** |
| (uchafswm o 200 o eiriau) |
| **Sut byddwch chi'n annog staff/aelodau cymdeithasau/myfyrwyr i ymuno neu gymryd rhan?** |
| (uchafswm o 200 o eiriau) |
| **Faint o arian rydych chi'n cyflwyno cais amdano? At ba ddiben caiff hwn ei ddefnyddio? (Rhowch amcangyfrif ar gyfer cyfanswm cost y digwyddiad/ymgyrch cyfan)** |
| |

| Unrhyw wybodaeth ychwanegol hoffech chi ei hychwanegu i ategu'r cais |
| --- |
| |

Llofnod: Dyddiad:

**Nodiadau am y Grant Gwyrdd**

**Gwneud eich Cais**

Os byddwch yn llwyddiannus, er mwyn cael mynediad at y cyllid rhaid i chi fod yn aelod o staff y Brifysgol neu'n rhan o gymdeithas Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Bydd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Brifysgol yn ystyried ceisiadau yn ystod cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad drwy ymateb i e-bost y cais. Os byddwch yn llwyddiannus, caiff yr arian ei drosglwyddo i gyfrif banc Undeb y Myfyrwyr i chi gael mynediad ato, neu os rydych chi'n aelod o staff, byddwch yn cael mynediad at y gronfa drwy'r côd cyllideb.
Ar ôl i chi gwblhau'r ffurflen, e-bostiwch hi i sustainability@abertawe.ac.uk

**Gwario eich cyllid**

Rhaid i chi wario'r arian at y diben a nodir yn eich cais ymhen mis ar ôl cael gwybod am y penderfyniad ar y cyllid. Os nad ydych yn gwneud hynny, caiff yr arian ei dynnu'n ôl. Os bydd newid cynllun a hoffech chi wario'r arian ar ddigwyddiadau eraill, rhaid i chi ymgeisio eto.

**Gofynion**

Rhaid i'r holl gyhoeddusrwydd a deunydd hyrwyddo gydnabod cymorth Tîm Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe drwy gynnwys y logo (isod). Ar ôl y digwyddiad, rhaid cyflwyno adroddiad byr 200 gair o hyd ynghyd â lluniau i sustainability@abertawe.ac.uk ymhen 4 wythnos ar ôl cynnal y digwyddiad neu'r fenter.

**Logo Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe (i'w defnyddio ar yr holl gyhoeddusrwydd)**

Prifysgol Abertawe
Swansea University
Cynaliadwyedd
Sustainability